# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 11 Gorffennaf 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (Canlyniad)

**C8 Jenny Randerson:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd gyda Changhellor y Trysorlys ynghylch canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant? (OAQ6335)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau ar hyn o bryd am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant gyda'r Canghellor a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

### Arian Strwythurol Amcan 1 (Meini Prawf Cymhwyster)

**C9 Glyn Davies:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd gyda chydweithwyr Ewropeaidd ynghylch y meini prawf cymhwyster ar gyfer arian strwythurol Amcan 1? (OAQ6354)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid yw'n ofynnol cynnal trafodaethau o'r fath. Mae meini prawf cymhwyster ar gyfer rhaglen Amcan 1 yn fater i weinyddwr y rhaglen, Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru, a fydd yn ystyried dogfen raglennu sengl Amcan 1 a'r rheoliadau cyllido strwythurol Ewropeaidd. Mae rhestr wirio ar gyfer cymhwyster eisoes wedi ei llunio gan y Swyddfa gyda chymorth grŵp partneriaeth bychan. Bydd y rhestr hon yn rhan o'r arweiniad i bartneriaethau ac ymgeiswyr am brosiectau.

### Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru)

**C10 Michael German:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch yr adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd ar y gweill? (OAQ6351)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf fi a'r Ysgrifennydd Gwladol yn cael trafodaethau rheolaidd am y materion sydd yn effeithio ar Gymru gan gynnwys yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

### Deddfwriaeth Sylfaenol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

**C11 Dafydd Wigley:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y darpariaethau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig sydd yn effeithio ar Gymru? (OAQ6343)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Carwn eich cyfeirio at yr ateb a roddais i Ieuan Wyn Jones yn y Cyfarfod Llawn heddiw (OAQ6342).

### Y Mesur Hela (San Steffan)

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu eu cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch rhan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y mesur hela a gyflwynir yn San Steffan? (OAQ6344)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref yn dilyn pleidlais ddiweddar y Cynulliad yn ei hysbysu o ddymuniad y Cynulliad i benderfynu drwy ddeddfwriaeth eilaidd a ddylid gwahardd hela gyda chŵn yng Nghymru. Gan nad yw hyn yn fater datganoledig, mater i San Steffan fydd penderfynu a ddylid rhoi'r pŵer hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (Canlyniad)**

**C13 Peter Black:** Pryd y caiff y Cynulliad wybod am ganlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant? (OAQ6319)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd y Cynulliad yn cael ei hysbysu o ganlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant cyn gynted ag y bydd y Trysorlys yn gwneud ei gyhoeddiad yn ddiweddarach yn y mis.

**Gwella'r Rhwydwaith Rheilffyrdd**

**C14 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynghylch defnyddio arian Amcan 1 i wella'r rhwydwaith rheilffyrdd? (OAQ6333)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf wedi cael trafodaethau o gwbl gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau am ddefnyddio arian Amcan 1 i wella'r rhwydwaith rheilffyrdd. Fodd bynnag, bydd swyddogion y Cynulliad yn llunio blaenoriaethau strategol mewn trafodaethau gydag Awdurdod Datblygu Cymru ac awdurdodau lleol i'w galluogi i wneud asesiad o geisiadau unigol am Amcan 1.

Yn y cyfamser, mae swyddogion wedi bod yn trafod yr isadeiledd yn gyson â Railtrack a chwmnïau trên yng Nghymru, efallai fod hyn yn angenrheidiol i greu sylfaen ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd. Tra bo cynigion pecyn ar gyfer cyllid Amcan 1 yn gallu cynnwys elfennau o wella isadeiledd rheilffyrdd, bydd angen iddynt ddangos yn glir sut y maent yn cyfrannu at gyflawni buddiannau ehangach cynhwysiant cymdeithasol ac adfywiad economaidd.

**Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru**

**C15 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau bod dyfodol i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru mewn ardaloedd lle nad yw'r economi'n ddigon cryf i gadw nifer sylweddol o bobl ifanc? (OAQ6346) ***Tynnwyd yn ôl.***

**'Gwellcymru.com' (Trafodaethau ar Lefel Ewropeaidd)**

**C16 Geraint Davies:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cynnal trafodaethau ar lefel Ewropeaidd ynghylch goblygiadau dogfen 'Gwellcymru.com'? (OAQ6341) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Materion Iechyd Trawsbynciol**

**C17 David Melding:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ynghylch agwedd y Cabinet at faterion iechyd trawsbynciol? (OAQ6340) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ehangu'r Undeb Ewropeaidd (Goblygiadau i Gymru)**

**C18 John Griffiths:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ynghylch y goblygiadau i Gymru o ehangu'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ6334)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrannu at sefydlogrwydd gwleidyddol Ewrop. Bydd yn creu cyfres newydd o amgylchiadau a chyfleoedd—nid yn unig i ddarpar aelodau ond hefyd i'r nifer presennol o aelod wladwriaethau a'u rhanbarthau cyfansoddol, fel Cymru. Mae rhai o'r goblygiadau inni wedi eu trafod gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac mewn cyfarfodydd diweddar o'r Fforwm Cymreig ar Faterion Ewropeaidd a chan fwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru.

Mae Canolfan Ewropeaidd Cymru, yr ymunodd y Cynulliad â hi ar 1 Ebrill, ar fin dechrau ar brosiect ymchwil sylweddol i asesu'r ffordd orau ymlaen i Gymru i sicrhau ei bod yn gwneud defnydd o'r

cyfleoedd a ddaw yn sgîl y broses ehangu. Bydd y canlyniadau ar gael i'r Cynulliad ac i bartneriaid eraill y Ganolfan cyn gynted ag y cwblheir y prosiect. Yr wyf yn disgwyl y bydd y mater hwn yn cael ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yng ngoleuni'r canlyniadau.

**'Gwellcymru.com' (Addysg Uwch a Datblygu Economaidd Cynaliadwy)**

**C19 Gareth Jones:** Sut fydd y darpariaethau a nodir yn 'Gwellcymru.com' yn hwb i gyfraniad sefydliadau addysg uwch i ddatblygu economaidd cynaliadwy yng Nghymru? (OAQ6347) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Elfennau Trawsbynciol Polisi Amgylcheddol (Polisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru)**

**C20 Phil Williams:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu sicrhau y bydd holl bolisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n rhoi ystyriaeth i elfennau trawsbynciol polisi amgylcheddol? (OAQ6345) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru)**

**C21Christine Humphreys:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd ar y gweill? (OAQ6353)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a minnau yn cael trafodaethau rheolaidd ar y materion sydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

**Materion Addysg nad ydynt wedi'u Datganoli i'r Cynulliad**

**C22 Jonathan Morgan:** Pryd fydd y Prif Ysgrifennydd yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru nesaf i drafod materion yn ymwneud ag addysg nad ydynt wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ6339) ***Tynnwyd yn ôl.***

**'Gwellcymru.com' (Awdurdodau Lleol)**

**C23 Janet Davies:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd ag awdurdodau lleol ynghylch eu rôl o safbwynt cyflawni targedau 'Gwellcymru.com'? (OAQ6337) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Prosesau Llunio Polisi'r Cynulliad (Y Cyhoedd)**

**C24 Lynne Neagle:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu denu'r cyhoedd i gymryd rhan ym mhrosesau llunio polisi'r Cynulliad? (OAQ6332)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Credaf ei bod yn hynod bwysig cael cyfranogiad ehangach yn y broses o lunio polisïau'r Cynulliad. Nid oes un ateb, ond ymhlith y mesurau yr ydym yn edrych arnynt y mae: cryfhau'r pwyllgorau rhanbarthol yng ngoleuni'r ddadl ddiweddar; gwella'r drefn ymgynghori a chyfranogi fel rhan o'r cynllun Rhoi Llywodraeth Well ar Waith; gweithio'n agos gyda'r cynghorau partneriaeth a mudiadau cydraddoldeb i wella cyfraniad gwahanol sectorau; a hybu arweinyddiaeth yn y gymuned drwy waith megis Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.